PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 16 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Davies, Hinchey, Jenkins, Lent, Molik, Walker a/ac Weaver |

77 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lister a Tony Young

78 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

79 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd ar yr amod bod ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Tim Davies yn cael eu cynnwys.

80 : DIWEDDARIAD YMWELIADAU/RHAGLEN WAITH

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y rhaglen waith ac ymweliadau, a chael gwybod am fanylion y cyfarfodydd a nodwyd mewn dyddiadur a'r rhai a gynhaliwyd eisoes.

Trafododd aelodau sut y câi'r adborth o gyfarfodydd ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ac awgrymodd y Cadeirydd y hyn gael ei sefydlu ar ôl i'r holl gyfarfodydd gael eu cynnal.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth a phenderfynu ar adrodd yn ôl ar ôl i'r holl gyfarfodydd gael eu cynnal.

81 : EITEM ADDYSG – GRANTIAU DATBLYGU DISGYBLION

Cafodd aelodau gyflwyniad ar Grantiau Datblygu Disgyblion gan Siriol Burford (Consortiwm Addysg) a amlinellodd wybodaeth am ei chefndir cyflogaeth; Y Grant; Y Grant i 17/18; Canlyniadau ac Amcanion.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Gofynnodd Aelodau beth oedd yn cael ei ofyn o'r Gwasanaethau Plant yng Nghaerdydd a chawsant wybod bod gan y Consortiwm eisoes berthynas gadarnhaol ag Addysg ac yn gweithio gyda gofal cymdeithasol, ac ystyrid bod angen i addysg a gofal cymdeithasol fod yn fwy cydweithredol a bod â phartneriaeth ar draws Cymru ond bod Caerdydd bron â chyrraedd y nod.

- Gofynnodd aelodau sut mae'r Consortiwm a Llywodraeth Cymru'n mesur effeithiolrwydd y Grant. Cafodd aelodau wybod y cafwyd gwelliannau mewn

presenoldeb, materion ymddygiad, diarddeliadau a chanlyniadau arholiad, y cyfan yn fesurau lles a ddefnyddir gan Estyn.

- Gofynnodd aelodau a oedd y disgyblion hyn yn fwy tebygol o gael eu bwlio a bod data i dystiolaethu hyn. Cafodd aelodau wybod taw dyma'r achos a nodwyd hyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Gofynnodd aelodau a yw Ysgolion yn gwneud cais am arian hyfforddiant ac a allant ddod ynghyd i wneud hyn a chawsant wybod yn y GCA fod eisoes ddull clwstwr, bod cyfarfodydd rheolaidd a gobeithiwyd y gellid cael model Cenedlaethol. Mae ysgolion eisoes yn gwneud ceisiadau clwstwr.

- Nododd aelodau fod y canlyniadau'n dangos bod Plant Sy'n Derbyn Gofal y tu allan i Gaerdydd yn perfformio'n waeth na'r rhai yng Nghaerdydd a gofynnwyd am y rhesymau dros hyn. Cafodd aelodau wybod bod hyn yn ymwneud â pherthnasau, pan fo'r rhain yn chwalu a bod disgyblion yn symud, mae'n peri straen ac yn eu gwneud yn fregus gan felly effeithio ar eu haddysg a'u perfformiad.

- Gofynnodd aelodau a fyddai'r Grant bellach yn cael ei ddefnyddio i grŵp ehangach o bobl ac nid yn unig ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal a chawsant wybod ei fod ond ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal ac a arferai dderbyn gofyn ond nid plant mabwysiedig a arferai dderbyn gofal. Cynigiodd swyddogion roi gwybodaeth am blant a arferai dderbyn gofal a fabwysiadwyd ar gyfer Caerdydd a'r Fro.

- Gofynnodd aelodau faint o wahaniaeth sydd rhwng y ffaith fod y plant yn derbyn gofal neu oherwydd anghenion arbennig. Rhoddodd swyddogion wybod y câi Plant Sy'n Derbyn Gofal flaenoriaeth ymhob ysgo, a byddai'n rhaid i blant ag anghenion arbennig fynd drwy'r panel sy'n arafu'r broses rhwng awdurdodau lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i Siriol Burford am eu cyflwyniad.

## 82 : GWASANAETH TRAWMA DATBLYGIADOL AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cafodd aelodau gyflwyniad ar y Gwasanaeth Trawma Datblygiadol i Blant sy'n Derbyn Gofal gan y Dr Libby Erin Arweinydd Gwasanaeth a Seicolegydd Clinigol a Laura McGuinnes a amlinellodd wybodaeth am y Gwasanaeth Hyd Yma; Ymgynghori; Model Gwasanaeth; Grŵp Meithrin Ymglymiad; Gobeithion a Heriau ac enghraifft o'r gwaith a wnaed.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Gofynnodd aelodau ai'r nod mewn achosion hirdymor oedd na fyddai angen y gwasanaeth ar y plant mwyach, gan y gallent ymdopi'n fwy annibynnol. Dywedodd Dr Erin eu bod eisiau darparu gwasanaeth yn llawer cynt, meithrin gwydnwch i helpu a ymdopi; mae'r plant yn aml wedi cael bywyd cynnar anodd iawn ac roeddent yn debygol o fod angen gwasanaethau therapiwtig ar ryw bwynt. Gan fod y gwasanaeth yn datblygu mae pobl yn meddwl am y

gwasanaeth ynghynt ac yn rhoi cyfeiriad gwell. Ychwanegodd Laura McGuiness fod Dr Erin yn dod i mewn yn fisol, fod enwau'n cael eu rhoi ar fwrdd a blaenraglenni'n cael eu pennu, nid gwasanaeth ond mewn argyfwng mohono mwyach.

- Gofynnodd aelodau a oedd gwahaniaeth rhywiau yn y paratorwydd i ddod ymlaen a defnyddio'r gwasanaeth. Cafodd aelodau wybod bod y bobl ifanc yn gyffredinol yn cael eu nodi'n broffesiynol fel rhai sydd angen y gwasanaeth yn hytrach na hunan-nodi'r angen, roedd y gwahaniaeth rhywiau'n gyffredinol gyfartal.

- Gofynnodd aelod am faint yr angen am y gwasanaeth, a chafodd wybod fod 803 o blant sy'n derbyn gofal ac y byddai angen rhyw ran ar y gwasanaeth ar y rhan fwyaf rywbryd yn eu bywydau.

- Cafodd aelodau wybod bod hwn yn wasanaeth arbenigol a ddibynnai ar y broblem wrth law, nid oes gan CAHMS ond rhai swyddogaethau ac os nad yw'r broblem yn berthnasol iddynt gall wneud pethau'n anos. Roedd angen i ddeall trawma a sut mae'n ymwneud â phroblemau eraill. Ychwanegodd swyddogion fod gwaith yn atal dadansoddiadau lleoliad drwy gefnogi gofalwyr maeth ac ati.

- Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw waith ar yr ochr atal a chawsant wybod fod hwn ar hyn o bryd ond drwy'r CAPI ac Ymyl Gofal ac nad oedd gallu i wneud mwy ar y funud.

- Gofynnodd aelodau sut mae'r gwasanaeth yn cysylltu â Seicolegwyr Addysg yng Nghaerdydd a chawsant wybod bod cysylltiad gwael a bod angen sylfaen iddo. Dros y 6 mis nesaf gobeithiwyd y câi cysylltiadau eu hatgyfnerthu ac y sefydlid perthynas ffurfiol ond roedd hefyd yn fater o gapasiti.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Libby Erin a Laura McGuinness am y cyflwyniad.

## 83 : DIWEDDARIAD AR YMCHWILIAD GORCHWYL A GORFFEN LLEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod yn y dyfodol.

## 84 : GYDA'I GILYDD NEU AR WAHÂN? ASESU BRODYR A CHWIORYDD AR GYFER EU LLEOLI'N BARHAOL

Cafodd aelodau wybod i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd David Walker i gael eglurhad ar y polisi o ran gwahanu brodyr a chwiorydd neu eu cadw gyda'i gilydd wrth faethu. Atodwyd yr ymateb gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r adroddiad er gwybodaeth i Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Credai aelodau y byddai mwy o wybodaeth am y pwnc yn ddefnyddiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai'n rhoi gwybodaeth am ddiffyg y capasiti lleoliadau fesul 12 mis os byddai o ddefnyddi aelodau.

Ychwanegodd swyddogion nad yw grwpiau o 2-3 brawd neu chwaer yn broblem yn gyffredinol ond yn fwy diweddar cafwyd grwpiau o 5 ac 8 a oedd yn anos eu lleoli. Yn gyffredinol cedwir brodyr a chwiorydd â'i gilydd os yn bosibl.

- Credai aelodau y byddai'n ddefnyddiol defnyddio'r meini prawf i wneud penderfyniadau. Eglurodd swyddogion wrth osod grŵp mawr o frodyr/chwiorydd, gwyddai gweithwyr cymdeithasol am yr angen i gefnogi a chynnal perthnasau pe'u gwahenid. Roedd hefyd faterion i'w hystyried pe bai rhai ond nid pob brawd/chwaer yn cael eu maethu/mabwysiadu.

- Gofynnodd aelodau a oedd y wybodaeth hon ar gael i'r plentyn yn ddiweddarach a chawsant wybod y byddai'r wybodaeth gwneud penderfyniadau ar gael.

- Gofynnodd aelodau sut mae swyddogion yn delio â sefyllfaoedd megis pan fod brawd/chwaer hŷn eisiau cyswllt â'r rhiant ond yr un iau ddim. Dywedodd swyddogion y dibynnai hyn ar gynllun gofal y plentyn iau, os oes gorchymyn dim cyswllt ar waith hynny a lywiai'r penderfyniad.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

85 : ADRODDIAD 6 MISOL SAA

Cafodd aelodau wybod bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu data perfformiad yn rheolaidd a sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith i gyflawni gwelliannau a gynhelir. Caiff y Pwyllgor adroddiad gan y gwasanaeth SAA ddwywaith y flwyddyn.

Nododd aelodau fod gan Swyddogion Adolygu Annibynnol (SAAau) gyfrifoldeb i weithredu'n uniongyrchol fel rhieni corfforaethol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol dan y gyfraith benodi SAA i bob plentyn sy'n derbyn gofal Maent yn monitro cynlluniau gofal, yn ymgynnull ac yn cadeirio adolygiadau i blant yn amodol ar orchmynion gofal, lleolir yn wirfoddol, gosodir â gofalwyr maeth, mewn sefydliadau preswyl neu ddiogel, byw gyda gofalwyr perthynol neu'n cael eu gosod at fabwysiadu. Eu rôl yw sicrhau bod pob cynllun gofal yn nodi'n glir y cymorth a gofal sydd ei angen ar bob plentyn gan ystyried yn llawn ddymuniadau a theimladau pob plentyn.

Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol gyfrifoldeb penodol i uwchgyfeirio pryderon am Blant sy'n Derbyn Gofal drwy broses datrys anghydfod. Os nad oes modd datrys y pryder o fewn y strwythur rheoli llinell, mae'r broses yn caniatáu uwchgyfeirio at y Prif Weithredwr ac yn y pen draw at y Gwasanaeth Ymgynghorol a Chymorth Llys Plant a Theuluoedd (CAFCASS Cymru) i ystyried camau cyfreithiol yn ôl yr angen.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar yr adroddiad:

- Nododd aelodau fod y llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol a gofynnodd beth oedd achos hyn. Dywedodd swyddogion fod cynnydd wedi bod yn nifer y Plant Sy'n Derbyn Gofal dros y ddwy flynedd ddiwethaf a ddigwyddodd yn

nifer o ffactorau megis Tlodi, Amddifadedd, Cam-drin ac Esgeulustod. Roedd hefyd gydnabyddiaeth fod yr achosion o adrodd wedi cynyddu.

- Gofynnodd yr aelodau am effaith y Ddeddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol ar lwyth gwaith y SAAau a chawsant wybod bod y rôl a'r swyddogaeth o hyd yr un fath ag yn Neddf 1999; roedd fodd bynnag effaith ehangach capasiti galw cyffredinol.

- Trafododd aelodau uwchgyfeirio a'r prosesau cysylltiedig gan nodi bod y gwasanaeth wedi'i hymestyn yn llwyr ar hyn o bryd, y llenwyd swydd Rheolwr y Gwasanaeth dros dro ar secondiad; bod cynnig pwysau i mewn am 2 SAA pellach.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

86 : RHAGLEN BRIGHT SPOTS A'R AROLWG 'EICH BYWYD, EICH GOFAL'

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

87 : ADRODDIAD DOSBARTHU FFONAU GOFAL CYMDEITHASOL AMW

Roedd yn dda gan aelodau nodi bod y mater hwn wedi'i ddatrys a bod y materion technegol yn cael eu delio â nhw.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

88 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH MABWYSIADU RHANBARTHOL CAERDYDD, Y CYMOEDD A'R FRO

Cafodd aelodau Adroddiad Blynyddol Cydweithfa Fabwysiadu Ranbarthol Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2016/17. Nododd yr adroddiad wybodaeth allweddol am wasanaethau rhanbarthol ynghyd â gwybodaeth perfformiad chwarterol ar gyfer y cyfnod 2016 – 2017.

Cafodd aelodau wybod bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu data perfformiad yn rheolaidd a sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith i gyflawni gwelliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phobl sy'n gadael gofal. Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor gael yr Adroddiad Ansawdd Gofal Mabwysiadu Blynyddol bob blwyddyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar yr Adroddiad Blynyddol:

- Gofynnodd aelodau pa mor gyflym oedd Caerdydd wrth broses mabwysiadu o'i gymharu â gweddill y DU, gan nodi y lluniwyd adroddiad ar y mater 5 mlynedd yn ôl. Cafodd aelodau wybod nad oedd meincnod o ran cyflymder ond bod amserlenni ymhell o fewn y canllaw 26 wythnos a bod y broses yn parhau o'r pwynt hwnnw.

- Gofynnodd aelodau ba waith oedd yn cael ei wneud i ddenu mabwysiadwyr newydd a chawsant wybod bod ymgyrch recriwtio ranbarthol a chenedlaethol a oedd ar waith fwy neu lai'n gyson.  Pwysleisiodd swyddogion fod pobl yn dod ymlaen drwy'r amser ond eu bod weithiau'n tynnu allan o ddeall fod gan rai plant broblemau cymhleth.  Rhaid i'r broses asesu fod yn gadarn iawn oherwydd taw'r plant oedd y mwyaf bregus; ni ellid cwtogi'r broses hon gan ei bod mor gynhwysfawr ag sydd angen iddi fod.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

89 : ADRODDIAD CRYNO CHWARTER 2 AR BERFFORMIAD

Nododd aelodau nifer y cwynion a gydnabyddid o fewn amser ac roeddent yn falch o weld bod hyn wedi'i gymryd o ddifri a'i gydnabod.

Roeddent hefyd yn blês gweld y cysylltiadau cryfach â'r Gymuned ac ystyriwyd y gellid mabwysiadu dull hyd yn oed yn fwy rhagweithiol i ymgysylltu â chymunedau eraill.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

90 : ADRODDIAD CWYNION CHWARTER 2

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD:  Nodi cynnwys y r adroddiad.

91 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32 – CARTREF PLANT CROSSLANDS

Adroddiad Gwybodaeth.  Nid oedd yr eitem hwn i'w chyhoeddi yn unol â pharagraff 12, Rhan4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:
- Eithrio'r cyhoedd wrth ystyried yr adroddiad
- Nodi cynnwys y r adroddiad.

92 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32 – SEIBIANNAU BYR CAERDYDD – TŶ STORRIE

Adroddiad Gwybodaeth.  Nid oedd yr eitem hwn i'w chyhoeddi yn unol â pharagraff 12, Rhan4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:
- Eithrio'r cyhoedd wrth ystyried yr adroddiad
- Nodi cynnwys y r adroddiad.

93 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

24 Ebrill 2018 am 2.00pm
Rhoddodd y Cynghorydd Lent ei hymddiheuriadau at y cyfarfod nesaf.